**Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona**

**Cyfarfod Rhithwir ar Teams, dydd Mawrth 21 Mehefin am 12:30**

1. **Yn bresennol:**

**Senedd Cymru**

John Griffiths – Cadeirydd, Aelod o'r Senedd (AS) (Llafur)
Ellie Richards – Swyddfa Luke Fletcher AS (Plaid Cymru)
Ioan Bellin – Swyddfa Rhys Ab Owen AS (Plaid Cymru)
Jack Harries – Swyddfa Vikki Howells AS (Llafur)
Andrew Bettridge – Uwch-swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AS

**Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'u staff**
Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
Jeff Cuthbert – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Andy Dunbobbin – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

**Prif Gwnstabliaid a'u staff**
Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru
Pam Kelly – Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
T/CI Alun Davies – Uned Gyswllt yr Heddlu
Lynda Young – Uned Gyswllt yr Heddlu, Ysgrifennydd y Grŵp

**Gwahoddedigion**
Gary Haggaty – Dirprwy Gyfarwyddwr – Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

2. **John Griffiths AS, Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd, John Griffiths, bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Jeremy Vaughan, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, gan egluro mai bwriad y cyfarfod oedd rhoi cyfle i Aelodau o'r Senedd drafod diwrnod ym mywyd swyddog heddlu yng Nghymru.

3. **Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

Diolchodd Dafydd Llywelyn i'r Cadeirydd a chroesawodd bawb i'r cyfarfod gan egluro y byddai'r cyflwyniad yn canolbwyntio ar sut olwg sydd ar blismona heddiw, gan edrych ar y pwysau a'r galw ar blismona.

Dywedodd Dafydd Llywelyn y byddai'r cyflwyniad yn edrych ar y modd y mae plismona wedi'i bolareiddio, gan esbonio y bydd yn ystyried y modd y mae plismona'n ymwneud â chymaint o agweddau eraill ar fywydau a chymunedau yng Nghymru heblaw trosedd yn unig. Yr hyn sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd o fewn y

cyflwyniad o safbwynt Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw’r gwaith y mae Comisiynwyr yn ei wneud i graffu ar waith heddluoedd a'u dwyn i gyfrif, gan bwysleisio’r modd y mae hon yn swyddogaeth hanfodol, a rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sy'n aml yn cael ei hanwybyddu. Tynnwyd sylw at y ffaith bod plismona, bellach, yn fwy nag erioed yn y parth cyhoeddus gyda swyddogion yn gorfod delio â sefyllfaoedd cymhleth, gydag aelodau o'r cyhoedd yn aml yn recordio’r rhyngweithio hwnnw a all yn ei dro arwain at gwestiynu plismona.

Cyflwynodd Dafydd Llywelyn Jeremy Vaughan – sef Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru – i drafod mewn mwy o fanylder.

4. **Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Adleisiodd Jeremy Vaughan bwyntiau Dafydd Llywelyn ynglŷn â pha mor amserol oedd hi i drafod diwrnod ym mywyd heddwas yng Nghymru heddiw, gyda’r rheini a oedd yn bresennol.

Tynnwyd sylw at lansio Cynllun ‘*Beating Crime*’ Llywodraeth y DU sy'n rhoi canolbwyntio’n fwy penodol ar blismona, gyda'r naratif ar droseddu ac yn enwedig troseddau arbennig o ddifrifol.

Mae'r nod lawer yn fwy eang na hynny, fel y mae'r data yn y cyflwyniad yn ei esbonio ac o ganlyniad mae'n rhaid i blismona symud y buddsoddiad er mwyn bodloni’r gofynion hynny. Tynnwyd sylw at y ffaith bod pobl yn galw'r heddlu am bob math o bethau drwy'r amser, oherwydd yn aml, mae'n haws cael mynediad at yr heddlu.

Ategodd y Prif Gwnstabl Vaughan y cynnig i Aelodau o’r Senedd ymuno â’r heddlu ar eu cynlluniau cyd-deithio (neu ‘*Ride Along schemes*’) gan ddweud y bydd swyddogion yn mynd â chi i’r ystafell reoli, y dalfeydd ac allan ar batrôl gyda swyddogion ymateb sy’n cynnig gwell dealltwriaeth o blismona a’n cynnig teimlad ohono.

Eglurodd, o fewn y cyflwyniad, er bod graffeg wahanol ar gyfer y pedwar o heddluoedd Cymru, eu bod yn ymdrin yn fras â'r un pethau, ac yn dilyn yr un safonau o ran digwyddiadau a chofnodi troseddau.

Ar y sleid gyntaf dywedodd Prif Gwnstabl Vaughan fod 41% o’r galw ar Heddlu De Cymru yn ymwneud â throseddau. Mae 25% i 40% – fel arfer – yn cadarnhau hynny gyda'r galw yn ymwneud â throseddau yn amlygu bod canran fawr o ddigwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â throseddau. Pwysleisiwyd, yn troshaenu hynny, bod Heddlu De Cymru yn rheoli dros 3 mil o droseddwyr yn y gymuned sy'n syrthio ar drefniadau aml-asiantaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd ac sy'n delio â throseddwyr rhyw sydd wedi’u rhyddhau, troseddwyr treisgar difrifol ac yn y blaen sydd, at ei gilydd, yn gofyn am adnoddau'r heddlu i'w rheoli ac i ymweld â nhw.

Cadarnhaodd Jeremy Vaughan fod Heddlu De Cymru yn delio â thua 534 o gysylltiadau digidol y dydd, gan amlygu bod y byd cyswllt yn newid i fod yn un digidol a bod heddluoedd wedi symud gyda’r newid hwn, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gall aelodau o’r cyhoedd deipio @southwalespolice neu

@gwentpolice erbyn hyn wrth roi gwybod am drosedd, a bydd camau plismona'n canfod beth mae'r unigolyn eisiau rhoi gwybod am ei gylch, gan ddod i'r casgliad pa mor hawdd yw hi, bellach, i gael gafael ar yr heddlu.

Trafododd Prif Gwnstabl Vaughan y sleid nesaf yn dangos data gan Heddlu Gogledd Cymru. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gan Heddlu Gogledd Cymru yn unig bron i 30 o bobl y dydd wedi'u cadw yn y ddalfa, – gan bwysleisio mai bob dydd oedd hynny – 365 diwrnod y flwyddyn, ac y byddai hynny tua 100 o bobl y dydd ledled Cymru.

Trafododd y sleid nesaf yn dangos data gan Heddlu Gwent. Mae Heddlu Gwent, fel y 3 arall o heddluoedd Cymru, yn delio â 42 o ddigwyddiadau bob dydd ar gyfartaledd sy'n ymwneud â materion iechyd meddwl. Bydd Gwent – yn debyg i heddluoedd eraill – yn ymdrin â 3 thrafodaeth ynghylch strategaeth ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed a 9 trafodaeth ynghylch strategaeth amddiffyn plant bob dydd.

Trafododd y Prif Gwnstabl Vaughan y sleid nesaf yn cynnwys data gan Heddlu Dyfed Powys ac sy'n dangos bod Heddlu Dyfed Powys yn cofnodi tua 120 o droseddau'r dydd, gan bwysleisio nid yn unig bod Heddlu Dyfed Powys yn delio â'r troseddau hynny ond bod yn rhaid iddynt ddelio â nhw ar draws ardal eang sy'n rhychwantu 4 awr o deithio mewn cerbyd o un cwr i'r llall. Mae hynny'n golygu rhai heriau gwirioneddol i'r heddlu o dan sylw, sy'n cynrychioli'r ardal ddaearyddol ail fwyaf yng Nghymru a Lloegr, gan godi pryderon ynghylch y fformiwla ariannu sy'n methu â chydnabod yr heriau y mae plismona yn eu hwynebu o ran daearyddiaeth Cymru.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Vaughan grynodeb cyffredinol o'r galw am blismona ledled Cymru, gan nodi bod recriwtio yng Nghymru yn llawer mwy datblygedig nag o'r blaen, gyda Heddlu De Cymru'n bwriadu recriwtio 900 o bobl eleni, a bod angen rhaglen hyfforddi fawr.

Pwysleisiodd y lefel uchel o ddisgwyliad sydd gan y cyhoedd ar blismona a nodi'n gryf – er bod hyn yn cael ei gyfiawnhau ac nad oes unrhyw feirniadaeth ar y lefel uchel o waith craffu ar blismona – fod hyn yn hynod arwyddocaol ac yn teimlo'n uwch nag ydyw mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Tynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylw at y ffaith bod y dirwedd ddeddfwriaethol wedi newid llawer yn ystod Covid, i raddau rhyfeddol. Fodd bynnag, yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae cyflymder y newid yn y gyfraith wedi bod yn sylweddol, gyda chyfreithiau gwahanol yn cael eu cyflwyno er mwyn mynd i'r afael â heriau gwahanol. Mae angen i blismona geisio cadw i'r funud â thechnoleg ac mae hynny'n golygu llawer o fuddsoddiad.

Dywedodd fod plismona'n ymwneud â mwy na throsedd yn unig a bod swyddogion yn aml yn cael eu galw i ddelio â materion iechyd meddwl. Mae plismona wedi bod yn treialu Naloxone yng Nghymru i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Comisiynydd Plant i fynd i'r afael â phlant sydd ar goll o gartrefi gofal, a'r modd y gallai rhedeg cartrefi gofal liniaru'r risg honno.

Mae lefel uchel iawn o waith craffu ar blismona a nodwyd bod tîm o bobl bob dydd sy'n adolygu digwyddiadau ac yn cyfeirio'n rhagweithiol at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn ogystal â chynnal ymchwiliadau a delio â chwynion. Amlygwyd bod Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub wedi ymweld â Heddlu De Cymru yn 2021 ar adegau prysuraf y flwyddyn o ran galw a threuliodd 7 mis yn arsylwi ar y sefydliad.

5. **Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

Trafododd Dafydd Llywelyn yr oruchwyliaeth a'r gwaith craffu ar blismona gan ddweud bod hyder y cyhoedd wedi bod yn boblogaidd gyda digwyddiadau diweddar yn Llundain – nad sydd wedi'i gyfyngu i Heddlu'r Met – ond yn sicr wedi bod yn allweddol o ran y ffocws yn fwy eang. Nid yw plismona yng Nghymru yn cilio oddi wrth y goruchwylio a'r craffu hwnnw.

Eglurodd y Comisiynydd Llywelyn y bydd Comisiynwyr yn cynnal cyfarfodydd gyda'u Prif Gwnstabliaid ynghylch perfformiad yn rheolaidd, gall y trafodaethau hyn amrywio o ddata trosedd, digwyddiadau a gweithgareddau yn ogystal â materion megis y strwythur trefniadol, a phwysau'r rhaglen cynnydd (neu'r '*uplift programme*'). Mae trafodaethau diweddar wedi canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, gyda phryderon ynghylch staff a recriwtiwyd yn ddiweddar dros y 3 neu 4 blynedd diwethaf, a phobl ifanc mewn gwasanaeth sydd bellach yn ei chael yn anodd parhau i gael eu cyflogi ac sy'n gweithio sifftiau dan bwysau pan fo dewisiadau eraill mwy deniadol.

Gwnaeth yn glir bod y trefniadau llywodraethiant y mae'r Comisiynwyr yn eu cyflawni yn fewnol ac yn allanol gan fod ganddynt gyfarfodydd cyhoeddus, er enghraifft cyfarfodydd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhelir bob chwarter.

Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn fod Comisiynwyr yn Gadeirydd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n cael eu cynnal gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Llysoedd Ynadon, y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, a'r Gwasanaeth Prawf i sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn rhedeg yn effeithlon ac effeithiol yn lleol ac wedyn yn cael eu dyrchafu i lefel Cymru gyfan, gan weithio ar y cyd.

Esboniodd fod gwirfoddolwyr annibynnol sy'n cefnogi Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gydag ymweliadau annibynnol â dalfeydd, paneli sicrhau ansawdd ac ymweliadau annibynnol at ddibenion llesiant cŵn ac anifeiliaid, a'u bod yn gallu darparu lefel o sicrwydd a gwaith craffu i'r cyhoedd mewn perthynas â'r gweithgaredd yr heddluoedd o ddydd i ddydd. Yn gyffredin ar draws Swyddfa'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac yn unol â'r heddlu mae Swyddogion Arweiniol neu adnoddau arbenigol wedi'u sefydlu sy'n gweithio i fynd ati'n drylwyr a dadansoddi darpariaeth gwasanaeth.

Mae plismona yng Nghymru yn ymateb i 230 o ddigwyddiadau trais domestig bob dydd gan amlygu effaith andwyol trais domestig a'r goblygiadau y gall hyn ei gael ar addysg yn fwy eang, a'r modd y mae hyn yn flaenoriaeth allweddol yng Nghymru

gan gysylltu â strategaeth Llywodraeth Cymru o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Daeth Dafydd Llywelyn i gasgliad drwy ddweud bod y rhain i gyd yn cydblethu â’r cyrff eraill fel Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth sydd hefyd yn cyhoeddi’n rheolaidd ar heddluoedd unigol ac yn llywio adolygiadau thematig, a all fod yn feichus i heddluoedd eu cynnal.

6. **Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl Vaughan realiti'r system sector cyhoeddus y mae'r heddlu'n gweithio ynddi gan nodi bod yr heddlu'n cydweithio’n galed gyda phartneriaid a bod gan Gymru'r cyfleoedd gorau i wneud rhywbeth gwahanol i herio'r *status quo*. Cafwyd enghraifft o’r modd y bydd gan heddluoedd nyrsys iechyd meddwl mewn ystafelloedd rheoli sydd wedi’u talu gan heddluoedd i helpu i wneud gwell penderfyniad wrth ymdrin â digwyddiadau iechyd meddwl.
Soniodd am gamddefnyddio sylweddau fel rhywbeth sy’n sgwrs barhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch gwneud rhywbeth gwahanol yng Nghymru. Pwysleisiwyd nad yw plismona yn cwestiynu ei gyfrifoldeb o ran dwyn gwerthwyr cyffuriau allan o’r system, mae’r drafodaeth yn ymwneud â chymorth i bobl sy’n gaeth i gyffuriau, gan mai materion iechyd cyhoeddus yw’r rhain.

7. **Pam Kelly – Prif Gwnstabl Heddlu Gwent**

Adleisiodd y Prif Gwnstabl Kelly sylwadau blaenorol a oedd yn amlygu bod gan heddlu Gwent 50 o ddigwyddiadau cam-drin domestig y dydd gyda thîm ymroddedig yn gweithio ar baratoi ffeiliau achos er mwyn dwyn achosion gerbron y llysoedd a chyflawni cyfiawnder cyn gynted â phosibl, gan bwysleisio ar gyfartaledd ei bod yn cymryd 12 diwrnod i’r tîm penodedig gyflwyno achosion gerbron y llysoedd a chael gwrandawiad.

Soniodd am bwysigrwydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 600 o’r cyfryw swyddogion.

Cododd y Prif Gwnstabl Kelly bryderon ynghylch asiantaethau sydd wedi’u datganoli i Lywodraeth Cymru – er enghraifft, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a’r GIG – gan fod swyddogion yr heddlu yn dal i fod mewn unedau achosion brys am 6 i 8 awr, neu’n disgwyl ar ochrau ffyrdd i Wasanaethau Ambiwlans Cymru gyrraedd oherwydd bod yr asiantaethau hynny o dan bwysau. Pwysleisiodd ei bod am weld y swyddogion hyn yn lleihau troseddau treisgar, targedu lladron a monitro troseddwyr rhyw. Pwysleisiodd y plismona bob amser yn gweithio mewn partneriaeth ond er mwyn i blismona gadw cymunedau’n ddiogel mae angen iddo ystyried y cannoedd o oriau hynny a dreulir yn aros mewn unedau achosion brys neu ar ochrau ffyrdd, ynghyd â’r effaith y mae hynny’n ei gael ar staff yr heddlu o ran os bydd rhywun yn marw ar ôl bod mewn cysylltiad â’r heddlu, bod yn rhaid cyfeirio’r digwyddiad at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae hyn yn golygu bod swyddogion, wedyn, yn destun ymchwiliad oherwydd eu bod wedi mynd i alwad yn lle ambiwlans i gefnogi'r bobl yn y gymuned. Mae hyn yn cael effaith ar lesiant a’r galw pan fo’n

rhaid i blismona gamu i mewn a'i gobaith oedd bod aelodau'r Senedd yn parhau i godi'r pryderon hyn.

8. **John Griffiths AS – Cadeirydd**

Diolchodd John Griffiths i'r siaradwyr gan bwysleisio bod y ffigurau ar gam-drin domestig yn peri pryder mawr gan ddweud ei fod yn sicr y gellid gwneud llawer o waith i helpu.

Gofynnodd i Jeremy Vaughan ai heddweision yn unig fydd y 900 o staff a recriwtiwyd dros y flwyddyn yn Heddlu De Cymru neu gymysgedd o staff yr heddlu. Gofynnwyd sut rai yw ffigyrau swyddogion yr heddlu erbyn hyn yn sgil toriadau yn y gorffennol.

9. **Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod Heddlu De Cymru yn recriwtio 450 o swyddogion heddlu ond sylwer bod nifer o swyddogion yr heddlu yn ymddeol eleni, fodd bynnag maent o fewn cyrraedd y targed o ran y rhaglen cynnydd (neu'r '*uplift programme*'). Yn ogystal â hyn bydd Heddlu De Cymru yn recriwtio 200 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gan fod llawer o'r cyfryw swyddogion yn gwneud cais i ddod yn swyddogion heddlu, felly mae yna drosiant mewn niferoedd ac at hynny, mae yna staff heddlu. Ar ddiwedd y rhaglen cynnydd (neu'r '*uplift programme*') bydd Heddlu De Cymru wedi dychwelyd i niferoedd plismona ar ddechrau 2008/2009 ond bydd yn dal i fod yn sylweddol is o ran staff yr heddlu ac o ganlyniad i hynny, fe fydd swyddogion yr heddlu mewn rolau a ellir eu diwallu gan staff yr heddlu.

10. **Ioan Bellin – Swyddfa Rhys Ab Owen AS (Plaid Cymru)**

Ymddiheurodd Ioan Bellin ar ran Rhys Ab Owen a holodd a oedd Heddlu'r Met yn cael arian ychwanegol gan eu bod yn plismona'r brifddinas ac a yw plismona yng Nghymru yn cael sgyrsiau gyda'r Swyddfa Gartref i gael arian ychwanegol ar gyfer plismona dinas Caerdydd fel prifddinas Cymru?

11. **Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

Dywedodd Dafydd Llywelyn fod plismona ar hyn o bryd yn destun adolygiad o fformiwla ariannu ac y bydd yn mynd i Llundain i lobïo ASau San Steffan ar y fformiwla ariannu plismona. Ym mhob un o'r ymatebion i'r adolygiad o'r fformiwla ariannu, amlygwyd y dylai Caerdydd gael y statws prifddinas y mae'n ei haeddu ac mae yna bwysau plismona ychwanegol yn sgil plismona prifddinas. Mae hwn yn un o'r cynrychiolaethau cyllid fformiwla ond mae yna rai eraill ac un ohonynt yw'r diffyg buddsoddiad cyfalaf mewn heddluoedd gwledig fel Heddlu Dyfed Powys, sydd angen 7 cyfleuster dalfa oherwydd y ddaearyddiaeth. Gofynnir i Aelodau or Senedd yn ogystal ag ASau yn etholaethau San Steffan i gefnogi plismona yn yr ymdrechion hyn.

12. **John Griffiths AS – Cadeirydd**

Gofynnodd John Griffiths a fyddai rhywun yn cydgysylltu gweithgarwch fel bod Aelodau o’r Senedd yn cael gwybod ar yr adeg briodol am yr hyn y gallai fod o ddefnydd iddynt ei wneud?

13. **Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

Dywedodd Dafydd Llywelyn y byddai’n hapus i gymryd cam y byddai Aelodau o’r Senedd yn cael eu hysbysu, o bosib, mewn nodyn briffio byr rhwng nawr a’r sesiwn nesaf.

14. **Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

Tynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylw at y ffaith bod dadl i'w chael ynghylch a ddylid ymdrin â hyn drwy fformiwla ariannu neu drwy grant, fel bod trafodaethau pellach i'w cynnal ynghylch y strategaeth yn y dull gweithredu.

15. **Jeff Cuthbert – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent**

Dywedodd Jeff Cuthbert fod Caerdydd yn aml yn cael ei chymharu â Bryste ac er bod Bryste yn ddinas fwy o faint na Chaerdydd, pwysleisiodd nad oes gan Fryste arena chwaraeon rhyngwladol sy’n cynnal gemau rhyngwladol rheolaidd nac hefyd Llywodraeth o fewn ei ffiniau, felly mae yna resymau pwysig iawn pam y dylai Caerdydd gael cyllid ychwanegol.

Tynnodd y Comisiynydd Cuthbert sylw at y ffaith bod trywydd cyllid grant y Swyddfa Gartref wedi gostwng yn sylweddol ers 2010, gan nodi mai tua 70/30 oedd y gymhareb rhwng grant y Swyddfa Gartref a’r praesept lleol yn 2016 a dalwyd drwy’r dreth gyngor leol, sy’n debycach i 50/50 erbyn hyn.  Codwyd pryderon oherwydd yr argyfwng costau byw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

16. **Sylwadau i gloi – John Griffiths AS – Cadeirydd**

Diolchodd y Cadeirydd, John Griffiths, i bawb am fod yn bresennol, gan ddweud bod y cyflwyniad yn cynnig trosolwg gwych o’r pwysau a’r galwadau ar blismona.

Pwysleisiwyd, fel bob adeg, os oes unrhyw un sy'n dymuno cysylltu cyn y cyfarfod nesaf gydag unrhyw sylwadau dilynol, syniadau neu sylwadau yn sgil heddiw neu mewn perthynas â'r cynllun cyd-deithio (neu’r ‘*ride-along scheme*’) i wneud hynny ar bob cyfrif.

Ychwanegodd John Griffiths, unwaith y bydd ei swyddfa wedi cael y nodyn briffio ar y fformiwla ariannu a'r amserlenni, y bydd y swyddfa'n dosbarthu cylchredeg hwnnw ymhlith yr holl Aelodau o’r Senedd.

**Camau i'w cymryd:   Dafydd Llywelyn i anfon nodyn briffio byr rhwng nawr a'r sesiwn nesaf ar y fformiwla cyllid ar gyfer plismona yng Nghymru a'r amserlenni sylweddol, fel bod Aelodau o'r Senedd yn gallu cynnig eu cefnogaeth.**